

RHIF YR YMCHWIL GYMDEITHASOL: 22/2020
DYDDIAD CYHOEDDI: 26/03/2020

Pa ffactorau sy'n gysylltiedig â phobl yn teimlo eu bod yn gallu **dylanwadu ar benderfyniadau** sy'n effeithio ar eu hardal leol?

Dangosydd Cenedlaethau'r Dyfodol 23

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu rhai ffactorau sy'n gysylltiedig ag a yw oedolion yng Nghymru yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadau ar benderfyniadau a wneir yn eu hardal leol neu beidio, er enghraifft penderfyniadau a wneir gan awdurdod lleol.

Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar gyfweiliadau'r Arolwg Cenedlaethol a gynhaliwyd yn **2018-19**. Mae'n diweddarar'r [dadansoddiad blaenorol a oedd yn seiliedig ar arolwg 2014-15](#).

Prif ganfyddiadau

Gan gadw'r ffactorau eraill yn gyson¹, canfuwyd bod y ffactorau isod yn gysylltiedig â phobl yn cytuno â'r datganiad hwn: "**Rwy'n gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar fy ardal leol**".

- **Pobl 16 i 24 oed**, o'u cymharu â phobl hŷn.
- **Llai cymwysedig** (is na TGAU gradd C neu gyfwerth) o'i gymharu â bod yn fwy cymwysedig.
- Meddwl bod **ymdeimlad cryf o gymuned** yn yr ardal leol.
- **Bodlonrwydd uchel ar y cyfan ar yr ardal leol fel lle i fyw**.
- **Dealltwriaeth dda o'r hyn y mae'r cynghorydd lleol yn ei wneud ar ran y gymuned**.
- Cytuno bod y **cynghorydd lleol yn gweithio'n agos gyda'r gymuned leol**.
- Bodlon ag argaeledd **gwasanaethau awdurdod lleol**.
- Cytuno bod modd cael gafael ar **wybodaeth am awdurdodau lleol** yn y dull o'u dewis.
- Cytuno bod yr awdurdod lleol yn **ymgyngori â phobl leol** wrth bennu ei gyllideb.

Roedd saith ffactor yn ein dadansoddiad y canfuwyd **nad** oeddent yn gysylltiedig â phobl yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol, gan gynnwys: bod mewn

¹ Rydym wedi rheoli ystod o ffactorau yn y gwaith dadansoddi hwn. Felly, hyd yn oed pan fo cysylltiad rhwng ffactorau (ee iechyd cyffredinol ac oedran), gellir archwilio'r cysylltiad rhwng pob ffactor a chanran y bobl sy'n teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau a wneir yn lleol yn annibynnol.

amddifadedd materol; statws economaidd; a yw pobl yn byw mewn ardal drefol neu wledig; ac a oes gan bobl iechyd cyffredinol da. Fel sy'n wir am bob dadansoddiad fel hyn, nid ydym yn gallu priodoli achos ac effaith na chaniatáu ar gyfer ffactorau nad ydynt wedi cael eu mesur yn yr arolwg.

Cynnwys

Tudalen:


1. Y Cefndir	3
2. Y Mesur a ddefnyddiwyd yn Arolwg Cenedlaethol Cymru	3
3. Dull dadansoddi	4
4. Y prif ffactorau sy'n gysylltiedig â phobl yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau lleol	6
4.1 Dadansoddi	8
4.1.1 Ffactorau demograffig	8
<i>Grŵp oedran</i>	8
<i>Cyrhaeddiad addysgol</i>	8
4.1.2 Cydlyniant cymunedol	9
<i>Ymdeimlad o gymuned</i>	9
<i>Bodlonrwydd cyffredinol ar yr ardal leol</i>	9
4.1.3 Democratiaeth leol	9
<i>Deall beth mae'r cynghorydd lleol yn ei wneud ar ran y gymuned</i>	9
<i>Cytuno bod y cynghorydd lleol yn gweithio'n agos gyda'r gymuned</i>	10
4.1.4 Gwasanaethau awdurdod lleol	10
<i>Bodlonrwydd ar argaeledd gwasanaethau a chyfleusterau awdurdod lleol</i>	10
<i>Gallu cael gafael ar wybodaeth am awdurdod lleol yn y dull o'u dewis</i>	10
<i>Mae'r awdurdod lleol yn ymgynghori â phobl wrth bennu cyllideb</i>	11
4.2 Ffactorau nad ydynt yn gysylltiedig â phobl yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau lleol	11
5. Crynodeb ac argymhellion ar gyfer rhagor o ymchwil	12

1. Y Cefndir

Mae [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#) yn canolbwyntio ar wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Er mwyn cyflawni hyn, mae'r Ddeddf yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am dargedau a materion hirdymor, gweithio'n well gyda chymunedau a rhanddeiliaid, a dilyn dull mwy cydlynol a chydgyssylltiedig o wneud penderfyniadau. Er mwyn sicrhau bod y weledigaeth hon yn cael ei chyflawni, mae'r Ddeddf yn cyflwyno saith o nodau llesiant² (**Ffigur 1**).

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud hi'n ofynnol i Lywodraeth Cymru bennu [dangosyddion cenedlaethol](#) sy'n mesur sut mae'r nodau llesiant yn cael eu cyflawni. Mae [Arolwg Cenedlaethol Cymru](#) yn mesur cynnydd yn erbyn 15 o'r 45 o ddangosyddion cenedlaethol. Mae'r arolwg yn cynnwys cyfweiliadau wyneb yn wyneb â hapsampl o 12,000 o bobl o bob cwr o Gymru bob blwyddyn.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar [Ddangosydd Cenedlaethol 23](#): 'Canran y bobl sy'n teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol'.



Ffigur 1. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: saith nod llesiant³.

2. Y cwestiwn yn yr Arolwg Cenedlaethol

Casglwyd gwybodaeth a oedd yn berthnasol i Ddangosydd Cenedlaethol 23 drwy ofyn i'r rhai a oedd yn ateb yr Arolwg Cenedlaethol a oeddent yn cytuno â'r datganiad "Rwy'n gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar fy ardal leol".³ Defnyddiwyd graddfa Likert gyda phum pwynt i ateb y cwestiwn hwn, o '1 = cytuno'n gryf' i '5 = anghytuno'n gryf'. Ar gyfer y gwaith dadansoddi yn yr adroddiad hwn, roedd y bobl a oedd wedi ateb 'cytuno'n gryf' neu 'tueddu i gytuno' wedi cael eu cyfuno yn un grŵp 'cytuno'; roedd pobl a oedd wedi ateb 'anghytuno'n gryf' neu 'tueddu i anghytuno' wedi cael eu cyfuno yn un grŵp 'anghytuno' ac nid oedd pobl a oedd wedi ateb 'ddim yn cytuno nac yn anghytuno' wedi cael eu cynnwys yn y dadansoddiad.

Roedd cyfanswm o 19% o oedolion yn cytuno eu bod yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol

² Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: Yr hanfodion, sydd ar gael [ar-lein](#).


³ Darllenwch [ddogfen dechnegol](#) Dangosyddion Cenedlaethol Cymru i gael rhagor o wybodaeth.

3. Dull dadansoddi

Er mwyn deall sut mae ffactorau penodol yn cyfrannu at bobl yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol, roeddem wedi defnyddio **techneg ystadegol⁴ i archwilio'r cysylltiad⁵ rhwng pob ffactor a phobl yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol, gan gadw pob ffactor arall yn gyson** (cyfeirir at hyn fel rheoli ffactorau eraill hefyd) yn bwysig oherwydd mae'n caniatáu i ni edrych ar bob ffactor rhagfynegi yn annibynnol (hynny yw, sicrhau nad oes ffactorau allanol yn dylanwadu ar yr effaith rydym yn ei mesur). Er enghraifft, gallem archwilio'r cysylltiad rhwng dau ffactor ar wahân (oedran a chymhwyster uchaf) a phobl yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau lleol. Efallai ein bod ni'n gwybod bod oedran rhywun yn gysylltiedig â'r unigolyn yn teimlo ei fod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar ei ardal leol. Ond, efallai bod oedran rhywun hefyd yn gysylltiedig â lefel y cymhwyster uchaf y mae wedi'i ennill (gweler **Ffigur 2**, lle mae gallu dylanwadu ar benderfyniadau a wneir yn lleol wedi cael ei gwtogi yn 'dylanwadau ar benderfyniadau'). Er mwyn edrych ar effaith un ffactor (ee oedran) ar bobl yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau lleol, byddai arnom angen rheoli effaith pob ffactor arall. Mae modd i ni gael syniad llawer gwell o sut mae un ffactor unigol yn gysylltiedig â gallu dylanwadu ar benderfyniadau a wneir yn lleol, heb ddylanwad ffactorau eraill.

Cymhlethdod y perthnasoedd rhwng ffactorau

Er mwyn deall y canlyniadau hyn, mae'n bwysig nodi na allwn bob amser fod yn sicr ynghylch pa ffactorau sydd â *chysylltiad* â phobl yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau lleol a pha ffactorau y mae pobl sy'n teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau lleol yn *effeithio arnynt*. Mae'r berthynas hon yn amlwg yn seiliedig ar wybodaeth flaenorol ar gyfer rhai ffactorau. Er enghraifft, gallai bod yn iau fod yn gysylltiedig â phobl yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau yn eu hardal leol; fodd bynnag, rydym yn gwybod nad yw a yw unigolyn yn teimlo ei fod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau yn newid ei oedran. Fodd bynnag, nid yw'r berthynas mor amlwg ar gyfer ffactorau eraill. Er enghraifft, gallai pobl yn teimlo bodlonrwydd ar eu hardal leol fel lle i fyw wneud iddynt deimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau, neu gallai teimlo eu bod yn



Ffigur 2 Pwysigrwydd cadw pob ffactor arall yn gyson wrth ddadansoddi ystadegau.

⁴ Atchweliad logistaidd yw'r enw ar hyn. Mae rhagor o wybodaeth am y dulliau a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad hwn ar gael yn yr [adroddiad methodoleg atchweliad a'r adroddiad technegol](#).

⁵ Mae'r dadansoddiad hwn yn gallu dweud wrthym am *debygolïaeth* perthnasoedd rhwng ffactorau, ond ni all dweud wrthym am berthnasoedd anffurfiol (ee byddai'n anghywir dweud bod teimlo'n fodlon ar yr ardal leol yn *achosi* i bobl deimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau lleol).

gallu dylanwadu ar benderfyniadau wneud iddynt deimlo bodlonrwydd ar eu hardal leol fel lle i fyw: gallai'r berthynas weithio ddwy ffordd⁶.

Dehongli'r canlyniadau

Mae'r holl ffactorau a gyflwynir yn y siartiau yn yr adroddiad hwn yn rhagfynegyddion ystadegol arwyddocaol o bobl yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau lleol, fel sydd wedi'u profi gan y model atchweliad rydym wedi'i ddewis.


Yn yr adroddiad hwn, rydym yn defnyddio 'ymylon rhagfynegi' – sy'n cael eu cyflwyno fel canrannau (%) – i ddangos y tebygolrwydd o berthynas rhwng pob ffactor (gan gadw pob ffactor arall yn gyson) â'r newidyn dibynnol (pobl yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau lleol). Mae'r canlyniadau yn dangos pa mor debyg yw un grŵp 'cyffredin' o bobl â nodwedd a rennir (ee menywod) o deimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau lleol, o'i gymharu â grŵp 'cyffredin' arall o bobl â nodwedd wahanol a rennir (ee dynion) mewn un ffactor penodol (ee rhyw). Mae bariau ansicrwydd ar y siartiau yn dangos y cyfwng hyder o 95% ar gyfer yr ymylon rhagfynegi i bob grŵp. Mae bariau ansicrwydd sy'n gorgyffwrdd yn golygu nad yw hi'n gwbl glir pa grŵp yn y ffactor yw'r mwyaf rhagfynegol, er bod ffactor yn rhagfynegydd arwyddocaol o bobl yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau lleol.

⁶ Gall y berthynas hon fod yn hyd yn oed mwy cymhleth, oherwydd gallai fod ffactorau eraill nad ydym wedi'u hystyried eto (ac nad ydynt ar gael gan yr Arolwg Cenedlaethol) a allai fod yn gysylltiedig â phobl yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau lleol a phobl yn teimlo bodlonrwydd ar eu hardal leol.


4. Y prif ffactorau sy'n gysylltiedig â phobl yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau lleol

Roedd cyfanswm o 19% o bobl yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol. Mae **Ffigur 3.1** yn dangos yr holl ffactorau unigol (gan **gadw'r ffactorau eraill yn gyson**) y canfuwyd a oedd yn gysylltiedig â phobl yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau lleol. Ym mhob ffactor, mae'r grŵp sydd â'r tebygolrwydd mwyaf (canran) o deimlo ei fod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau lleol wedi'i amlygu mewn glas golau. Caiff pob un o'r ffactorau hyn eu dadansoddi'n fwy manwl yn yr adrannau canlynol.

Ffigur 3.1 Y prif ffactorau sy'n gysylltiedig â'r debygoliaeth fod pobl yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol.



Ffigur 3.1 (parhad) Y prif ffactorau sy'n gysylltiedig â'r debygoliaeth fod pobl yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol.



4.1 Dadansoddi


Gan gadw pob ffactor arall yn gyson, canfuwyd bod y ffactorau a drafodir yn yr adran hon yn gysylltiedig â phobl yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol. Mae ffactorau unigol sy'n rhannu nodweddion tebyg yn cael eu grwpio yn ôl **themâu** (ee ffactorau demograffig). Rhestrir y ffactorau y canfuwyd **nad** oeddent yn gysylltiedig â phobl yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau lleol yn [Adran 4.2](#).

4.1.1 Ffactorau demograffig

Grŵp oedran

O gymharu â phobl 75 oed a hŷn, roedd pobl 16-64 oed yn fwy tebygol o deimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau lleol (**Ffigur 4.1**). Y bobl yn y grŵp oedran **16-24 oed** oedd y mwyaf tebygol o deimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau lleol, a phobl **65-74 oed a 75 oed a hŷn** oedd y lleiaf tebygol.


Ffigur 4.1 Y berthynas rhwng teimlo eich bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau lleol a grŵp oedran.



Cyrhaeddiad addysgol

Ar y cyfan, pobl â chyrhaeddiad addysgol is (**is na TGAU gradd C neu gyfwerth**) oedd y grŵp a oedd yn fwyaf tebygol o ddweud eu bod yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau lleol (fel y gwelir yn **Ffigur 4.2**).

Ffigur 4.2 Y berthynas rhwng teimlo eich bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau lleol a chyrhaeddiad



4.1.2 Cydlyniant cymunedol

Ymdeimlad o gymuned

Ar y cyfan, roedd pobl a oedd yn teimlo bod **ymdeimlad o gymuned**⁷ yn eu hardal yn fwy tebygol o deimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau a oedd yn effeithio ar eu hardal leol. Dangosir hyn yn **Ffigur 4.3**.

Bodlonrwydd cyffredinol ar yr ardal leol


Pobl a oedd yn teimlo'n **fodlon iawn** ar ansawdd eu hardal leol fel lle i fyw oedd y grŵp a oedd yn fwyaf tebygol o deimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol, a phobl a oedd yn **eithaf anfodlon** oedd y lleiaf tebygol. Gweler **Ffigur 4.4**.

4.1.3 Democratiaeth leol


Deall beth mae'r cynghorydd lleol yn ei wneud ar ran y gymuned

Pobl a oedd yn **cytuno'n gryf** eu bod yn deall beth oedd eu cynghorydd lleol yn ei wneud ar ran y gymuned oedd y mwyaf tebygol o deimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau lleol, a'r bobl a oedd yn **anghytuno'n gryf** oedd y lleiaf tebygol. Gweler **Ffigur 4.5**.


Ffigur 4.3 Y berthynas rhwng teimlo eich bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau lleol ac ymdeimlad o gymuned.



Ffigur 4.4 Y berthynas rhwng teimlo eich bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau lleol a bodlonrwydd cyffredinol ar yr ardal leol.



Ffigur 4.5 Y berthynas rhwng teimlo eich bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau lleol a deall beth mae'r cynghorydd lleol yn ei wneud ar ran y gymuned.




⁷ Yn Arolwg Cenedlaethol Cymru, mae cyfuniad o'r tair elfen ganlynol yn mesur ymdeimlad o gymuned: 1) ymdeimlad o berthyn i ardal leol; 2) pobl o wahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu'n dda; 3) pobl yn trin ei gilydd â pharch ac ystyriaeth.

Cytuno bod y cynghorydd lleol yn gweithio'n agos gyda'r gymuned

Pobl a oedd yn **cytuno'n gryf** bod eu cynghorydd lleol yn gweithio'n agos gyda'r gymuned yn eu hardal leol oedd y mwyaf tebygol o deimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau a wneir yn lleol, a'r rheini a oedd yn **anghytuno'n gryf** oedd y lleiaf tebygol. Gweler **Ffigur 4.6**.

Ffigur 4.6 Y berthynas rhwng teimlo eich bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau lleol a chytuno bod y cynghorydd lleol yn gweithio'n agos gyda'r gymuned leol.




4.1.4 Gwasanaethau awdurdod lleol

Bodlonrwydd ar argaeledd gwasanaethau a chyfleusterau awdurdod lleol.

Fel y gwelir yn **Ffigur 4.7**, pobl a oedd yn **fodlon iawn** ar argaeledd gwasanaethau a chyfleusterau lleol oedd y mwyaf tebygol o deimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau a wneir yn lleol, a'r rheini a oedd yn **anfodlon iawn** oedd y lleiaf tebygol.


Ffigur 4.7 Y berthynas rhwng teimlo eich bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau lleol a bodlonrwydd cyffredinol ar wasanaethau awdurdod



Gallu cael gafael ar wybodaeth am eu hawdurdod lleol yn y dull o'u dewis

Pobl a oedd yn **cytuno'n gryf** eu bod yn gallu cael gafael ar wybodaeth am eu hawdurdod lleol yn y dull o'u dewis oedd y mwyaf tebygol o deimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol, a'r rhai a oedd wedi ateb **'tueddu i anghytuno'** oedd y lleiaf tebygol. Gweler **Ffigur 4.8**.


Ffigur 4.8 Y berthynas rhwng teimlo eich bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau lleol a chytuno bod modd cael gafael ar wybodaeth am eu hawdurdod lleol yn y ffordd o'u dewis.



Mae'r awdurdod lleol yn ymgynghori â phobl leol wrth bennu cyllideb

Roedd pobl sy'n **cytuno eu bod yn fodlon bod eu hawdurdod lleol yn ymgynghori â phobl wrth bennu cyllideb** yn fwy tebygol o deimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol, na'r rhai a oedd yn anghytuno â hynny. Pobl sy'n 'cytuno'n gryf' bod eu hawdurdod lleol yn ymgynghori â phobl wrth bennu cyllideb oedd y mwyaf tebygol o deimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau a'r rhai a oedd yn **anghytuno'n gryf** oedd y lleiaf tebygol. Gweler **Ffigur 4.9**.

Ffigur 4.9 Y berthynas rhwng teimlo eich bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau lleol a chytuno bod yr awdurdod lleol yn ymgynghori â phobl leol.



4.2 Ffactorau nad ydynt yn gysylltiedig â theimlo eich bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau a wneir yn lleol

Yn y dadansoddiad hwn, roedd ffactorau eraill wedi'u cynnwys yn ein model atchweliad, ond **ni** wnaethom ganfod cysylltiad rhwng y ffactorau canlynol ac a oedd pobl yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau a wneir yn eu hardal leol:

- Bod mewn amddifadedd materol.
- Statws economaidd.
- A yw pobl yn byw mewn ardal drefol neu wledig.
- A oes gan bobl iechyd cyffredinol da.
- A oes gan bobl gyflwr hirdymor cyfyngol.
- A yw pobl yn gwybod sut mae cael gwybodaeth am wasanaethau awdurdod lleol neu beidio, ac
- A yw pobl wedi cysylltu â'u cynghorydd lleol yn y 12 mis diwethaf.

5. Crynodeb ac argymhellion ar gyfer rhagor o ymchwil

Yn gryno, rydym wedi dadansoddi ffactorau unigol (a themâu cyffredinol) sy'n gysylltiedig â **Dangosydd Cenedlaethol 23: 'Canran y bobl sy'n teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol'**.

Roedd pedair thema ganolog⁸ wedi dod i'r amlwg yn ein dadansoddiad:

1. Ffactorau demograffig.
2. Cydlyniant cymunedol.
3. Democratiaeth leol.
4. Gwasanaethau awdurdod lleol.

Gallai'r berthynas rhwng ffactorau penodol a phobl yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau a wneir yn lleol fod yn fwy cymhleth na'r hyn a awgrymir yn y dadansoddiad hwn, a gallai'r canlyniadau **amrywio** rhwng ac o fewn gwahanol ardaloedd. Felly, gallai rhagor o ymchwil gynnwys mwy o ymchwiliadau ar raddfa fach sy'n cynnwys dulliau mwy amrywiol (fel ymchwil ansoddol⁹ neu dulliau cymysg¹⁰).

⁸ Gyda'i gilydd, roeddem wedi edrych ar ffactorau a oedd yn gysylltiedig â **7 Dangosydd Cenedlaethol ar gyfer Llesiant** fel rhan o brosiect yn defnyddio data o Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018-19. Canfuwyd bod rhai ffactorau yn gysylltiedig â mwy nag un Dangosydd Cenedlaethol, felly rydym wedi darparu dogfen ar wahân sy'n tynnu sylw at y tebygrwydd a'r gwahaniaethau rhwng y ffactorau unigol, a'r themâu cyffredinol, y canfuwyd sy'n gysylltiedig â'r holl Ddangosyddion Cenedlaethol. Mae'r ddogfen hon ar gael **ar-lein**: Hafferty, C. (2020). *Themâu allweddol sy'n gysylltiedig â detholiad o Ddangosyddion Cenedlaethol ar gyfer Llesiant Cymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Adroddiad GSR. Ar gael yn: <https://llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2018-i-mawrth-2019>.

⁹ Defnyddir **ymchwil ansoddol** yn aml i ddeall rhesymau, safbwyntiau a chymhelliant sylfaenol pobl; er mwyn gweld y tueddiadau o ran meddyliau a safbwyntiau pobl er mwyn i ni ddeall mater penodol yn well. Mae dulliau casglu data ansoddol yn aml yn ddulliau ar raddfa fach, sy'n casglu data heb fod yn rhifol drwy ddefnyddio technegau fel cyfweiliadau a grwpiau ffocws. Ar y llaw arall, mae ymchwil *feintiol* yn ceisio deall problem drwy gasglu data rhifol y gellir eu defnyddio wrth ddadansoddi ystadegau, yn aml er mwyn cynhyrchu canlyniadau cyffredinol i sampl fawr o boblogaeth (ee agweddau, ymddygiad a safbwyntiau). Er enghraifft, dyma sut mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn casglu ac yn dadansoddi gwybodaeth yn bennaf.

¹⁰ Mae **'dulliau cymysg'** yn ddull ymchwil sy'n cynnwys casglu a dadansoddi data ansoddol a meintiol yn yr un astudiaeth. Wrth i lunwyr polisïau, ymarferwyr a phobl eraill mewn meysydd cymhwysol anelu at baratoi ymchwil seiliedig ar wybodaeth ar sail sawl math o dystiolaeth, (er enghraifft llesiant cymunedau a chenedlaethau'r dyfodol, sy'n cynnwys sawl agwedd), gall ymchwil dulliau cymysg fod yn ffordd dda o archwilio'r sefyllfaoedd cymdeithasol cymhleth hyn.

Awdur yr Adroddiad: Caitlin Hafferty



Safbwyntiau'r ymchwilydd sy'n cael eu mynegi yn yr adroddiad yma, ac nid ydynt o reidrwydd yn cynrychioli safbwyntiau Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Siobhan Evans

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru, Parc Cathays

Caerdydd, CF10 3NQ

E-bost: Siobhan.Evans@gov.wales

Mae'r ddogfen yma ar gael yn Saesneg hefyd.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80038-356-2